

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD



PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

ADRODDIAD AR DDIWYGIADAU'R COMISIYNYDD I'R CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD AR GYFER GOGLEDD CYMRU

Cefndir

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol Panel yr Heddlu a Throsedd a gynhwysir yn Adrannau 28(3)(a) a (b) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf).

Adolygiad o'r diwygiadau i'r Cynllun Heddlu a Throsedd

Ystyriodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ddiwygiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i'r Cynllun Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru yn ei gyfarfod ar 28 Ionawr 2019.

Fel rhan o'r adolygiad canol tymor, roedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi ystyried yr asesiad o drosedd a wnaed gan yr Heddlu i ddeall y troseddau a oedd yn cael yr effaith mwyaf a difrifol; yn aml nid cyfaint troseddau, ond y mathau o droseddau a oedd yn llechwraidd o ran natur ac yn absoliwt yn eu heffaith ac yn effeithio'n helaeth ar y rhai oedd fwyaf agored a diamddiffyn.

Felly, roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cynnig cynnwys blaenoriaeth drosfwaol 'Gostwng Camfanteisio'n Droseddol ar Bobl Ddiamddiffyn', a fyddai'n plethu trwy'r 5 blaenoriaeth plismona eraill.

Mae cam-fanteisio'n droseddol ar bobl ddiamddiffyn i'w weld mewn modelau troseddau cyfundrefnol (e.e. Llinellau Sirol), caethwasiaeth fodern, camdriniaeth rywiol a throseddu lleol. Yn ystod y blynyddoedd nesaf bydd yn rhaid i atal a diogelu pobl rhag camfanteisio troseddol fod yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru.

Cefnogodd Panel yr Heddlu a Throsedd y diwygiadau i Gynllun yr Heddlu a Throsedd a chrosawyd mewnbyn oddi wrth gymunedau Gogledd Cymru trwy arolwg ar-lein a chwestiynwyd sut byddai adborth yn cael ei roi i'r cymunedau.

Dyweddodd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd byddai'r Cynllun Heddlu a Throsedd diwygiedig yn cael ei gyhoeddi ac ar gael i'r cyhoedd, er byddai'n sicrhau fod copïau'n cael eu dosbarthi i Gyngorau Tref a Chymuned.

ARGYMHELLION:

Bod y diwygiadau i gynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cael eu cymeradwyo yn unol ag Adran 28(3)(b) y Ddeddf.

29 Ionawr 2019